



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

Siambwr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe

Dydd Gwener, 12 Tachwedd 2021 am 10.00 am

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

### Y Cyngorydd(wyr)

C Anderson  
P Downing  
H M Morris

### Y Cyngorydd(wyr)

J P Curtice  
S J Gallagher  
C L Philpott

### Y Cyngorydd(wyr)

N J Davies  
P Lloyd  
L G Thomas

### Swyddogion

Craig Davies  
Barrie Gilbert  
Richard Jenkins  
Yvonne Lewis  
Samantha Woon

Cyfreithiwr Cyswllt  
Uwch-swyddog Trafnidiaeth  
Swyddog Trwyddedu  
Arweinydd Tîm, Trwyddedu  
Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorwyr: B J Rowlands ac L V Walton

---

## 18 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 19 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 27 Awst 2021 yn gofnod cywir.

## 20 Cysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar y safonau statudol newydd ar gyfer gwasanaethau tacsis a hurio preifat a gyhoeddwyd o dan ddarpariaethau Deddf Plismona a Throsedd 2017 ac a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT). Darparwyd manylion hefyd am yr argymhellion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a chynigir y byddai'r safonau yn y dogfennau hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu Datganiad o Egwyddorion newydd ar gyfer Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat ar gyfer yr Awdurdod.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu y byddai dogfennau'n cael eu hanfon at yr Aelodau er gwybodaeth.

## **21 Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Dirymiadau a Gwrthodiadau**

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r Swyddog Trwyddedu adroddiad 'er gwybodaeth' i roi gwybod i'r Aelodau am y defnydd arfaethedig o'r Gofrestr Genedlaethol ar gyfer Dirymiadau a Gwrthodiadau Tacsis (NR3).

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Mynegodd y Cadeirydd a'r Aelodau eu diolch i'r Tîm Trwyddedu am eu gwaith caled yn ystod yr heriau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19.

## **22 Gwahardd y Cyhoedd**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

### **(Sesiwn Gaeëdig)**

## **23 Canlyniadau apêl**

Cyflwynodd y Cyfreithiwr Cyswllt adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar ganlyniadau apêl.

## **24 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacı a Cherbydau Hurio Preifat - AMS**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r wybodaeth gefndir mewn perthynas ag AMS.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd AMS yr amgylchiadau mewn perthynas â'r euogfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** y dylid **cymeradwyo** cais AMS am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac i AMS dderbyn llythyr rhybuddio ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

**25 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat - CRH**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r wybodaeth gefndir mewn perthynas â CRH.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd CRH, ynghyd â DR a NT, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r troseddau ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**Penderfynwyd** y dylid gwrthod cais CRH am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Nid oedd CRH yn bodloni'r Aelodau ei fod yn iach, yn briodol, yn ddiogel ac yn addas i ddal trwydded o dan adrannau 3.27, 3.28, 3.30, 3.31, 3.34 a 4.41 yn ogystal â'r rheini a amlinellir yn adroddiad y canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliad trwydded yn y busnes cerbydau hacni a hurio preifat.

**26 Apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chymeradwyo Gyrrwr ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol - SCN.**

Manylodd y Swyddog Trafnidiaeth ar fanylion cefndir SCN.

Cadarnhaodd SCN nad oedd wedi derbyn copïau o'r papurau a oedd yn cael eu hystyried yn y cyfarfod.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm

**Cadeirydd**